PARTNERIAETH AWYR-AGORED
Profiad • Mwynhau • Llwyddo
Experience • Enjoy • Achieve
OUTDOOR PARTNERSHIP



# 2020 ADRODDIAD Y CADEIRYDD




**Mae 2020 wedi bod yn flwyddyn heriol iawn i'n cymunedau, ein partneriaid, y grwpiau a'r unigolion rydyn ni'n gweithio gyda nhw.**

**Fodd bynnag, bu llawer i'w ddathlu a gobeithio bod yr adroddiad cryno hwn yn llwyddo i roi blas o'r gwaith cadarnhaol sydd wedi digwydd yn ystod y 12 mis diwethaf.**

Rydym yn ddiolchgar iawn i'n holl gyllidwyr, noddwyr, gwirfoddolwyr a rhanddeiliaid am eu cefnogaeth barhaus.

Mae hyn wedi ein galluogi i barhau i weithio trwy gydol y pandemig er ei fod wedi golygu addasu'r ffyrdd yr ydym yn gweithio.

Diolchwn i staff a phartneriaid Y Bartneriaeth Awyr Agored sydd wedi rhoi o'u hamser a'u harbenigedd i helpu eraill yn ystod y cyfnod anodd hwn. Mae'r help hwn yn cynnwys cynnig defnyddio bws mini Y BAA i gludo cleifion yn ôl ac ymlaen i'r ysbyty a stiwardio gwirfoddol o fewn y parc cenedlaethol i reoli ymwelwyr.

*Gyda'i gilydd mae'r elusen wedi creu 13,187 o gyfleoedd gweithgareddau awyr agored ledled gogledd Cymru yn ogystal â chael rôl ddylanwadol mewn nifer o brosiectau cenedlaethol arloesol.*

# Rhaglen Datblygu Cymunedau



Mae'r rhaglen hon yn cael ei harwain gan ein Swyddogion Datblygu Gweithgareddau Awyr Agored yng Nghonwy ac Ynys Môn gan ynysbrydoli plant, pobl ifanc ac oedolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored gydol oes.

Eleni, crëwyd **11,129** o gyfleoedd drwy weithgareddau yn amrywio o rai cymunedol i rai lefel perfformiad uwch. Mae'r tîm yma hefyd yn helpu clybiau i ddatblygu, yn rhedeg cyrsiau, hyfforddi gwirfoddolwyr, siarad ag ysgolion, creu cysylltiadau rhwngysgolion a chlybiau, trefnu cystadlaethau, rhedeg fforymau awyr agored o fewneu siroedd ayyb.

Llynedd (Ebrill 2019- Mawrth 2020), bu 45 o glybiau awyr agored yn aelodau o'r Bartneriaeth Awyr Agored, gan gynrychioli **5,179** o aelodau.



# Rhaglen Gwirfoddoli

Mae'r rhaglen hon, sy'n adnabod, hyfforddi a gwobrwyo gwirfoddolwyr, yn cael ei harwain gan ein Swyddog Gwirfoddoli, gan alluogi pobl leol i gyrraedd eu potensial am gost sydd yn fforddiadwy ac i rai, yn rhoi sail i gyflogaeth.

Eleni llenwyd 260 o lefydd ar gyrsiau gan arweinwyr gwirfoddol ac o'r rhain, bu 181 yn wirfoddolwyr newydd. Mae eich ymroddiad chi, ein gwirfoddolwyr, yn rhyfeddol. Pe bai'n rhaid prynu'r fath gyfraniad, buasai'r gost wedi bod yn £1.7 miliwn y flwyddyn.

# Rhaglen Llwybrau i Waith

Mae'r rhaglen hon, sy'n cael ei reoli gan ein Swyddog Llwybrau i Waith a'n Swyddog Hyfforddi, yn defnyddio'r awyr agored fel ffordd o gysylltu â phobl leol sydd yn chwilio am waith a'u cefnogi i symud yn nes at gyflogaeth.

Eleni, mae'r rhaglen yma wedi cefnogi dros **78** o unigolion gydag **Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad o £4.41** am bob punt a fuddsoddwyd. Mae ein partneriaid allweddol yn cynnwys Byrddau Iechyd, y Ganolfan Waith a Chymdeithasau Tai, Mantell Gwynedd & Social Value Cymru, yn ogystal â darparwyr awyr agored a chyflogwyr lleol.





# Antur y Ferch Hon

Mae'r prosiect yma â'r amcan o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau merched yng ngweithlu'r sector awyr agored (hyfforddwyr, rheolwyr). Arweinir y prosiect gan ein Swyddog Antur i Bawb ac mae **320** o ferched wedi cymryd rhan yn y cynllun.

# Antur i Bawb

Amcan y prosiect yma yw darparu mwy o gyfleoedd gweithgareddau awyr agored i bobl o unrhyw allu. Cai'r prosiect ei reoli gan ein Swyddog Cynhwysol. Eleni mae **1623** o bobl anabl wedi elwa o'r prosiect, ac mae 3 clwb cynhwysol newydd wedi'u sefydlu.





Rydym bellach bron i 12 mis i mewn i'n prosiect newydd- Prosiect Prydain Gyfan. Wedi'i ariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, dros gyfnod o saith mlynedd bydd y prosiect yn gweithio yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon i sefydlu rhaglenni a fydd yn ysbrydoli mwy o bobl i gymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau iach yn yr awyr agored.

Rheolir y prosiect gan ein Rheolwr Rhaglen newydd a'i gefnogi gan RPT Consulting, ein Partneriaid Cyflenwi. Eleni rydym wedi penodi tri Swyddog Datblygu newydd ac wedi sefydlu grwpiau Rhanddeiliaid yng Ngogledd Iwerddon, Cumbria ac Ayrshire. Y nod yw rhannu arfer da â rhanbarthau eraill ledled y DU.

Eleni gwobrwywyd ymdrechion yr elusen i ddod yn sefydliad cwbl gynhwysol trwy ennill Achrediad Efydd Insport Chwaraeon Anabledd Cymru, ac rydym ar hyn o bryd yn gweithio tuag at yr Achrediad Arian. Y Bartneriaeth Awyr Agored yw'r sefydliad Trydydd Sector cyntaf yng Nghymru i gyflawni hyn.

Yn niwedd 2019, cyrhaeddodd y Bartneriaeth Awyr Agored y rhestr fer ar gyfer dwy wobr fawreddog. Enillodd Y BAA Gwobr am y Defnydd Gorau o'r Gymraeg yng Ngwobrau Elusennau Cymru a chafwyd canmoliaeth uchel am ein gwaith gyda Datblygiad a Chydlyniant Cymunedol.

Cefnogir rhaglenni'r Elusen gan ein Swyddog Marchnata llawrydd, sy'n rheoli'n gwefan a'n tudalennau cyfryngau cymdeithasol. Hefyd gan ein Swyddog Cyllid, sy'n rheoli'r cyfrifon, archwiliadau, cyfieithu, rhestr gyflogi ac ychydig mwy.

Yn ystod y misoedd diwethaf, rydym wedi penodi Marchnata Aqua Marketing i helpu i godi proffil gwaith yr Elusen a chefnogi'r tîm staff wrth iddynt barhau i rannu ymarfer da â rhanbarthau eraill yng Nghymru a thu hwnt.




# GEIRIAU OLAF...

Rydym yn ffarwelio ag Owain Williams sydd wedi gweithio gyda dros 500 o unigolion fel rhan o'i rôl fel Swyddog Llwybrau i Waith.

Rydym hefyd yn colli un o'n hymddiriedolwyr, Jim Jones, sydd wedi cefnogi'r bwrdd yn ei rôl fel Cyfarwyddwr Masnachol a Marchnata. Diolchwn i'r ddau ohonyn nhw a bydd colled ar eu hôl.

Hoffwn ddiolch i'n Prif Weithredwr sydd yn gyfrifol am yrru ein rhaglenni a gweinyddu'r Bartneriaeth mewn ffordd broffesiynol. Diolchwn iddi hi a'r holl dîm staff, ar ran y bwrdd, am eu gwaith diflino. Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn her eithriadol ac maent wedi profi i fod yn dîm eithriadol.

# Y CAMAU NESAF...

Y flwyddyn nesaf byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd i ddylanwadu'n genedlaethol a rhannu ein profiad â rhanbarthau eraill ledled Cymru a'r DU, heb golli ffocws a'r effaith a gawn yng Ngogledd Cymru.

Mae'r pandemig hwn wedi dysgu i ni gyd y pwysigrwydd o gael mynediad i'r awyr agored, pwysigrwydd natur a'r amgylchedd naturiol, ac y gall pob un ohonom wneud gydag ychydig o help i'w ddefnyddio'n gall, yn ddiogel ac mewn ffordd gynaliadwy.

**Mae ein llwyddiant yn deillio o ymroddiad ein haelodau, gwirfoddolwyr, cyfarwyddwyr a'n tîm staff.**

**DIOLCH YN FAWR.**

